YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1895. [RHIF 89

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. DAVID LEWIS EVANS:

GYN-OLYGYDD "YR YMOFYNYDD."

GANWYD Mr. Evans yn Mhen yr Allt, Rhyddlan, Llanwenog, Gorphenaf 24, 1813, yr un flwyddyn a John Bright; a chafodd ei fedyddio yn fis oed, yn ol yr arfer y pryd hwnw, gan y Parch. Joshua Davies (1762—1845), offeiriad y plwyf, sef ar ddydd Gwyl Sant Bartholomeus, pe buasai y plentyn yn well o hyny—y dydd yr enciliodd y Ddwy Fil Gweinidogion o'r Eglwys Sefydledig yn 1662, a'r dydd hefyd, bedwar ugain a deng mlynedd cyn hyny y mwrddrwyd yn ddidrugaredd gan y Catholiciaid filoedd o'r Huguenots, neu Annghydffurfwyr Ffrainc, yn wyr, gwragedd, a phlant.

Ei dad oedd Evan Evans, a fagwyd yn y Gelynen, Cilrhedyn, a Margaret Glanduar oedd ei fam—un o achau hen Lewisiaid Penlan, Capel Sant Silin, am y rhai y dywedodd yr hen Sweier Jones (1778—1857) o'r Neuadd, unwaith wrth Mr. Evans, eu bod mor amled a'r brain o amgylch Cribin, a rhai o honynt er ys tri chan' mlynedd â'u henwau ar ysgrifau yn ei feddiant ef.

Er fod y byd yn mhell o fod yn hael ar ei rieni, ymdrechasant yn galed i roddi ysgol i Dafydd bach, eu hunig fab. Yr oedd yn amser caled yn Nghymru y pryd hwnw—amser y *Corn Laws* (Deddfau'r Yd) a wnaeth y Toriaid ar ol rhyfel Ffrainc er mwyn cynnal i fyny eu rhenti. Gwelid, ar flynyddau celyd, gannoedd â'u hwynebau yn welw las gan newyn, yn enwedig ar flynyddau drudion, pan oedd yr haidd yn chweigen y winsin, a'r huriau yn fach. Gwaeddai y menywod yn fynych, "A ydyw y môr bach ddim bron d'od yn rhydd!"

Dysgodd ei dad ef i ddarllen Cymraeg, a chafodd ei ddanfon i ysgolion a gedwid gan hwn a'r llall ar hyd y gymmydogaeth. Dysgodd

ysgrifenu tipyn, a darllen y Beibl Saesneg. Yr amser hwn clywodd un a elwid Jacco y Tiler—dyn o ddeall mwy nâ'r cyffredin, a meiswn wrth ei grefft—yn desgrifio Caercystenyn (Constantinople) a'r moroedd dros y rhai yr oeddid yn myned tuag yno. Cyffrodd hyn chwant mawr ar y gwr bach i ddeall rhywbeth am y gwledydd pell, ond nid oedd dim fawr llyfrau i gael y pryd hwnw o fewn cyrhaedd y bobl gyffredin. Trwy ddamwain canfu, mewn standing yn Ffair-fach-yr-Haf, yn Llanbyther, map y *Two Hemispheres*, dau hanner y byd. Gofynodd ei bris. Cafodd yr ateb, "Chwe' cheiniog." Ymadawodd yn rhwydd â'r ceiniogau oedd ei fam wedi roi iddo i fyned i'r ffair, a rhedodd adref â'i drysor gydag ef, mor falch a phe buasai wedi cael punt. Trwy gyfrwng hwnw a thraethawd Cymraeg Matthew Williams heb ddim mapiau, daeth i ddeall tipyn am ddull y ddaear a'i moroedd, sefyllfa ei gwledydd, yn nghyd â'r trefydd a'r prif afonydd.

Arferai ei fam fyn'd ag ef, er yn ieuanc, i'r cwrdd i gapel Alltplaca, ac un tro pan nad oedd ond bychan iawn, yn amser yr hen gapel gyda'i dô gwellt, gofynodd i'w fam pwy oedd y dyn mawr hwnw oedd yn llefain yn y pwlpud; ac atebodd hithau mai Dafis Castell Hywel oedd. Mae gan Mr. Evans argraff byw o bryd a gwedd yr hen wr hyd y dydd heddyw.

Dro arall, etto yn ieuanc iawn, mae'n cofio bod yn Alltplaca gyda'i fam, ac iddo weled yn mhlith y gweinidogion hen wr mewn côt lwyd, a chyda llais gwichlyd, ac yn ymddangos fel pe byddai allan o'i hwyl, ac mewn tymher ddrwg wrth y gweinidogion. Yr hen wr hwn oedd neb llai nâ'r enwog a'r anfarwol Iolo Morganwg.

Oddeutu yr amser hwn cafodd Mr. Evans ei ddanfon i'r ysgol i Lanbyther, at y Parch. William Jones, gweinidog Rhydybont a Chapel Noni, wedi hyny o Heol y Castell, Abertawe. Dysgodd yno dipyn o Ramadeg Saesneg, ac i gyfieithu tipyn o'r Saesneg i'r Gymraeg, tipyn o Rifyddiaeth, ac elfenau Sylfaenol Lladin a Groeg. Darllenodd Valpy's Delectus, tri llyfr cyntaf Æneid Fyrsil, ac oddeutu hanner llyfr Lladin Sallust ar Fradwriaeth Catalina. Rhoddai Mr. Jones hefyd iddo destynau i ysgrifenu traethodau bychain arnynt yn Saesneg, a benthyg llawer o lyfrau. Bu yn yr ysgol gyda Mr. Jones am rai blynyddau, ac y mae ganddo adgofion melus a pharchus am ei garedigrwydd a'i ddiwydrwydd hyd y dydd hwn, a chyhyd ag y bu Mr. Jones byw nid oedd byth yn myned trwy Abertawe heb dalu ymweliad â'i hen ysgolfeistr anwyl a hoff.

Daeth yn bryd bellach i Mr. Evans i ddechreu gwneuthur rhywbeth tuag at ennill ei fywiolaeth, yn lle bod o hyd yn pwyso ar ei rieni ag oeddynt hyd yn hyn wedi gwneuthur eu goreu drosto. Ni fu yn hir cyn cael gwahoddiad i Landeilo i helpu mewn ysgol. Wedi bod yno ryw ychydig amser, agorodd ysgol ei hunan yn Ffald-y-Brenin. Bu yno ddwy flynedd, ac yna rhoddodd ei ysgol i fyny. Un o'i ysgolheigion yn Ffald-y-Brenin oedd y diweddar Dr. Evan Davies, o Abertawe.

Yn nesaf agorodd ysgol yn Llanwenog dan nodded y Major Evans, Doleu Gwyrddon, yr hwn a dalai iddo am ddysgu nifer o blant

tlodion. Un tro gofynodd y gwr boneddig iddo, "Ai Sosin oedd?" Atebodd Mr. Evans nad oedd yn meddwl ei fod yn Sosin. "Wel," meddai yntau, "beth y'ch chi? A ydych chi'r un peth a'r hen Ddafis, Castell Hywel? Os ydych, yr y'ch yn eitha' da. *Fe* wnaeth ddyn o hono I." Yna adroddodd sut yr oedd efe wedi troi *chain* a pholyn yr hwch am goesau yr hen wraig oedd yn golchi'r llestri yn y pistyll. "Dreifes yr hwch a bues dist a lladd Nani. Pan glywodd Mr. Dafis, danfonodd fi ar geffyl gyda'r gwas â llythyr i 'nhad. Ni ches i ddim disgyn, ond fy nanfon yn ol gyda'r gwas â llythyr i Mishtir. Wedi ei ddarllen cymmerodd Mr. Dafis fi i rwm, a chlodd y drws. Fe'm golchodd â whip nes own yn ffaelu cyffro. Gwnaeth y whipad hono fwy o ddaioni i fi na dim a ges I erioed."

Yn 1833, rhoddodd Mr. Evans i fyny yr ysgol, ac aeth i lawr i Landyssul i'r ysgol at y Parch. John Davies, gweinidog y Llwyn a Bwlch y Fadfa, gyda'r bwriad i fyned i Athrofa Gaerfyrddin y flwyddyn ganlynol. Er ei fod, pan yn cadw ysgol, yn ymdrechu hyd y gallai, nid yn unig i gadw i fyny yr hyn a ddysgodd yn Llanbyther, ond i ychwanegu ato. Gwyddai ei ddiffygion. Dywedid wrtho fod yn ofynol iddo cyn cael ei dderbyn i'r athrofa, nid yn unig i ddarllen Groeg a Lladin yn gywir gyda golwg ar gynnwys y llyfrau a'r peth a elwir *quantity*, ond hefyd i fedru scanno Homer a Fyrsil.

O'r diwedd daeth yr amser i fyny, ac aeth Mr. Evans a dau o ysgolheigion Mr. Davies i'r Coleg i sefyll eu prawf, ond nid heb beth petrusder. Yr arholwyr oeddynt yr ysgolhaig nodedig, y Parch. James Yates, Dr. Thomas Rees, Mr. John James, o Gellionen, ac amryw ereill. Cafodd yr ymgeiswyr eu holi yn fanwl, oll *viva voce*. Nid oedd dim ysgrifenu ar bapyr, ond y cwestiynau mewn Rhifyddiaeth ac Algebra. Gorfu arnom ddarllen y Groeg a'r Lladin yn gyntaf cyn ei gyfteithu. Yna daeth y scanno. Nid oedd yn bossibl i ddarllenwr anmherffaith ddianc, fel y dygwydd yn fynych dan y dull presennol o gario yn mlaen yr arholiad trwy ysgrifenu. Cafodd chwech allan o wyth eu derbyn i'r Athrofa Dyma eu henwau, yn y drefn yr eisteddent yn y class:—Y *dux* oedd William Arthur Jones brawd y Parch. J. E. Jones, Penbont-ar-Ogwr, (wedi hyny o Taunton); Joshua Lewis, Llanbyther, wedi hyny o Henllan; Thomas Evans, o'r Lowtref, ger Llanwnen, wedi hyny o Kingswood, ger Birmingham; D. L. Evans; William Williams, Rhosgoch, Sir Aberteifi, yr hwn ar ben tair blynedd a adawodd y Coleg, gan gydffurfio â'r Eglwys Sefydledig; a Michael Thomas, o blwyf Cilrhedyn, wedi hyny o Wooton Bassett. Os nad yw Mr. Williams yn fyw, y maent oll erbyn hyn wedi myned i ffordd yr holl ddaear oddigerth Mr. Evans. Yr athrawon yn y Coleg y pryd hwnw oeddynt y Parch. D. Peter (1755—1837), yn hen wr egwan, a Mr. David Lloyd (1805—1863), yr hwn oedd wedi ei ethol y flwyddyn o'r blaen, ar ymadawiad Mr. Palmer, yr hwn a roddodd gychwyniad i'r *Welshman*. Hanner-blwyddyn yn unig y bu Mr. Peter gyda gwaith y Coleg wedi hyn.

Yn yr Hydref canlynol dechreuasant ar eu gwaith. Aethant yn gyntaf i rwm Mr. Peter, y prif athaw, yr hwn a roddodd iddynt

chwech tudalen o Whateley's *Logic* i ddysgu *ar eu tafod* erbyn boreu trannoeth! Ar yr un pryd yr oeddynt i barotoi gwaith y Tutor arall. Edrychent yn syn ar eu gilydd. Yr oedd yn anmhossibl dysgu cymmaint ar eu tafod mewn mor ychydig o amser—ac i ba ddyben? Ond beth oedd i'w wneyd? O'r diwedd cytunasant ar gynllun gyda'u gilydd. Yr oedd y llyfr i gael ei osod ar y llawr dan adeu y ford, a bod Mr. Thomas Evans ar ei draed a'i hosan i droi'r dail, i bob un gael darllen yn ei dro. Drannoeth awd trwy y wers yn gampus. "Very well done, indeed," oedd y ganmoliaeth. Ond y trydydd tro, tybiodd yr hen wr, yr hwn oedd yr ochr arall i'r ford, fod rhywbeth allan o le. "What have you got there?" meddai, a dyna ddiwedd ar y ddyfais dwyllodrus. Ond beth nesaf? Cytunodd y class o'r diwedd i fyned at Mr. Peter, a dywedyd yn barchus wrtho, ond yn benderfynol, nas gallent ddysgu cymmaint ar eu tafod mewn mor ychydig o amser, a chyflawnu gofynion y Tutor arall yn ogystal; ond os byddai mor garedig a'u holi yn sylwedd y wers, y gwnaent eu goreu i roddi boddlonrwydd iddo. O hyny allan awd yn mlaen yn y dull rhesymol hwn. Y gwir am y peth oedd fod Mr. Peter erbyn hyn yn dechreu babanu Ar ddiwedd hanner-blwyddyn, rhoddodd i fyny ddyledswyddau y Coleg, ac etholwyd y Parch. D. Davies, Pantteg, i gymmeryd ei le yn y Gadair Dduwinyddol.

Trwy y pedair blynedd, gweithiodd y class yn galed, ond pan yn cyfarfod â'u gilydd yn y *Library*, treulient yr amser yn llawen a difyrus. Yn yr ail flwyddyn daeth Mr. James Rees Jones (Kilsby) i'r athrofa, ac yr oedd efe y pryd hwnw yn ddigon o "grwth a thelyn," yn llawn bywiogrwydd ac o'r hyn a eilw y Sais yn *humour*. O herwydd gormod o'r elfen hon, dywedir iddo gael ei ddanfon i ffwrdd o athrofa yr Independiaid yn Lancashire. Nid oedd hyd y nod y *Tutors* bob amser yn ddyogel rhag *jokes* Kilsby. Wedi gorphen ei arholiad yn 1838, gosododd ei Eiriadur Lladin mewn prysurdeb mawr ar fwrdd yr athrofa, gan wneyd ei adduned fel yma:—"Dyna, bydd gwallt gwyn ar ben Jim cyn yr agoro y llyfr hwn mwy." Un tro, a thro difyr sydd yn teilyngu ei gofnodi yn y fan hon, daeth Mr. Powell, Caerdydd, ar ymweliad â'r athrofa, a dywedodd wrth y myfyrwyr, "Codwch fi, fechgyn, ar eich ysgwyddau;" mewn eiliad dyna'r hen wr ffraeth yn cael ei godi i fyny nes cwrdd â'r *ceilings*, ac meddai, drachefn, "Dyna, 'nawr, dodwch fi i lawr; caf weithian ddyweyd fy mod wedi cael fy ngodi yn athrofa Caerfyrddin." Dro arall, mewn *passage* tywyll (yr oedd y coleg y pryd hwn yn Heol Awst) cyn myned i *prayers*, darfu i D. L. Evans neidio ar ysgwyddau Mr. Lloyd, y *Tutor*, mewn camsynied, gan waeddu "Hei wo, Tom;" "What is the matter, man, are you mad?" ebe llais Mr. Lloyd wrth y crwt direidus. "O, is it you, Mr. Lloyd? I thought it was Tom Evans. I humbly beg your pardon." Ond diwedd ar y difyrwch, i fyned yn mlaen.

Yn y flwyddyn uchod, daeth y diwedd. Aeth yr arholiad heibio; aeth y class i ffwrdd, a Kilsby gyda hwy, pob un i'w ffordd, i wynebu'r byd mawr a'i ofynion a'i ddyledswyddau, heb obaith byth mwy i gyfarfod i gyd gyda'u gilydd!

Yr oedd Mr. Evans wedi cael galwad gan gynnulleidfa Llandyfân. Aeth yno yn fuan wedi ymadael â'r athrofa, a chychwynodd ysgol yn Llandeilo. Aeth pob peth yn mlaen yn hwylus am rai misoedd—y gynnulleidfa a'r gwrandawiad yn cynnyddu. Ond yn sydyn iawn wele siomedigaeth yn dyfod. Cawsant rybudd gan *agent* Arglwydd Dynefor i ymadael â'r hen gapel a'i ffynnon, unwaith yn ail i St. Winifred. Yr oedd yn ergyd trwm ac annysgwyliadwy i'r brodyr. Weithian yr oedd yn rhaid cyfarfod ar y Sabbath o dy i dy, ac i'r gweinidog ieuanc fyned i ben stol i bregethu. Ymdrechwyd cael lle cyfleus i adeiladu capel newydd yn agos i dre' Llandeilo, ond methwyd, oblegyd fod dylanwad yr Eglwys Sefydledig a'r gwyr mawr yn syth yn eu herbyn. Nid oedd dim i'w wneyd o'r diwedd ond cymmeryd lle ar ben bryn uchel, ac yn mhell o'r dref, yr hwn a gynnygiwyd iddynt trwy ddamwain ar fferm a elwid Onen Ffawr. Gorphenaf 27, 1839, seiniwyd prydles o gant ond un. Dechreuwyd adeiladu y ty, ond cyn ei orphen symmudodd Mr. Evans i Bloxham a Milton, yn Swydd Rhydychen. Bu yno oddeutu blwyddyn, ond yr oedd y ddwy gynnulleidfa, unwaith mor flodeuog, yn awr yn y ddarfodedigaeth wyllt, ac am na feddai Mr. Evans unrhyw feddyginiaeth rhag y clefyd angeuol hwnw, dychwelodd i Gymru. Er hyny, teimlai i'w arosiad yno, er nad yn hir, fod yn lles mawr iddo. Dysgodd rywbeth am arferion y Saeson, eu dull o fyw, ac yn benaf oll acen eu llafar. Pan el Cymro ieuanc gyntaf i Loegr, ac yn enwedig i lefaru mewn pwlpud Saesneg, nis gall lai na theimlo i raddau mwy neu lai ei ddiffygion yn y pethau hyn.

Wedi bod gartref am ychydig amser, ac wedi ymgynghori a'i hen gyfaill, y Parch. J. E. Jones, penderfynodd agor ysgol yn Mhenbont ar Ogwr. Llwyddodd yno braidd tu hwnt i'w ddysgwyliadau. Ar ddiwedd saith mlynedd o'i arosiad yno yr oedd y dref a'r gymmydogaeth mewn ystyr yn ei law fel ysgolfeistr. Un o'i ysgolheigion yno oedd yr Anrh. Arthur J. Williams, yr aelod seneddol presennol dros un o ranbarthau Morganwg. Un arall oedd y Parch. Edmund Watts, M.A., Cricieth, prif Arolygydd ei Mawrhydi ar Ysgolion Gogledd Cymru.

Yn 1850, ar ddiwedd ei saith mlynedd yn Mhenbont, derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys Undodaidd yn Colyton, swydd Dyfneint, i ddyfod yn weinidog iddynt. Symmudodd yno yn mis Mawrth, a phedwar o'i ysgolheigion gydag ef. Un o honynt oedd y Parch. J. B. Lloyd, yn awr o Bournemouth. Bu gydag ef o bryd i bryd yn Colyton dros ddeugain o ddynion ieuainc o Benbont a'r gymmydogaeth. Un dydd Gwyl Dewi cerddodd saith neu wyth o'r rhai hyn trwy y dref a chenin yn eu capiau, gan achosi difyrwch mawr a chlapio dwylaw ar ran y trefedigion. Yr oedd y waedd yn gyffredin :—"Come out, come out to see the Welsh boys!" Yn 1856, priododd foneddiges o'r gynnulleidfa—merch hynaf George Eyre Powell, Yswain, Commander R.N. Cafodd bedwar o blant—tri mab a merch. Bu dair blynedd ar ddeg yn Colyton—yr amser dedwyddaf o'i fywyd—

y gynnulleidfa yn unol a lluosog, ei gartref yn ddedwydd, a'r dref yn gyfeillgar, ond yr oedd i symmud etto.

Yn 1863, wedi marwolaeth Dr. Lloyd yn Nghaerfyrddin, danfonodd y "Presbyterian Board" am dano i Lundain. Yr oeddynt wedi clywed ei fod yn hyddysg yn yr Hebraeg, a chynnygiasant iddo yr "Hebrew and Mathematical Chair" yn yr athrofa. Ar ol dwys ystyriaeth, derbyniodd y cynnyg, a symmudodd ef a'i deulu i Gaerfyrddin. Ychydig wyddai am y profiad chwerw oedd yn agoshau. Yn 1866 collodd ei briod a mam ei blant, pan oedd yr hynaf ond wyth mlwydd oed. Ni pharhaodd ei chystudd ond wyth awr a deugain. Collodd hefyd ei blentyn ieuangaf, chwe' mis oed, ar ei hol.

Yn ystod deng mlynedd ei arosiad fel athraw yn yr athrofa, gweithiodd Mr. Evans yn ddiwyd gyda'r dynion ieuainc, a chyda gradd mawr o lwyddiant, gan droi allan o bryd i bryd rai Hebrewyr rhagorol, fel y gŵyr arholwyr un neu ddau o brif-ysgolion enwocaf Lloegr. Hefyd golygodd Yr Ymofynydd tra yn yr athrofa o 1868 hyd 1872, pan y cymmerodd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, at y gwaith. Fel y gŵyr y darllenwyr, efe a weithiodd yn galed i'w gadw yn myn'd.

Yn y flwyddyn 1873, ar ddiwedd deng mlynedd yn yr athrofa, rhoddodd y gadair i fyny i'r Bwrdd Henadurol yn Llundain, ac yn 1875, symmudodd i Birkenhead. Nid hir y bu yno cyn i'w olygon ddechreu gwaethygu o herwydd clefyd a elwir *cataract*. Yn fuan aeth ei lygad de yn ddiwerth, a gorfu iddo ddibynu ar ei lygad chwith am flynyddau; ond yn mhen amser aeth hwnw hefyd i waethygu yn raddol. Un peth o ddau oedd yn awr o'i flaen—naill ai tywyllwch neu *operation*. Dewisodd yr ail, ac yn 1892, gosododd ei hun yn llaw un o'r *oculists* penaf yn Lerpwl, ac yn Mawrth 4, cyflawnwyd yr *operation*, a thrwy drugaredd yn hollol lwyddianus. Yn bresennol, â'i lygad de, yr hwn oedd wedi bod yn dywyll bum mlynedd, y mae yn gweled, tra mae'r llygad arall oedd yn wasanaethgar yn y cyfamser, yn awr yn dywyll.

Er yn ei bedwar ugain mlwydd a dwy, y mae Mr. Evans yn mwynhau iechyd rhagorol. Cafodd gyfansoddiad cryf gan ei Greawdwr, a gofalodd yntau, hyd y gallai, am dano. Ei ddiod yw dw'r, a'i wirod poethion yw llaeth a thê neu *cocoa*. Mae wedi bod trwy ei oes yn godwr boreu, ac hyd y nod yn awr y mae yn ei fyfyrgell fynychaf oddeutu hanner awr wedi chwech, ac yn gweithio yno hyd hanner dydd. Pan yn aros yn Rheol Cottage, Llanbyther, lle mae ei ferch yn gofalu am dano, treulia ei brydnawn, naill ai yn yr ardd, neu ynte yn rhodiannach ar hyd y gymmydogaeth yn nghanol golygfaoedd ei ieuenctid. Bryd arall, mae yn gwneuthur ei gartref yn Whitchurch, Salop, lle mae ei fab George Eyre Evans yn weinidog eglwys, "The Church of the Saviour." Mae hyd heddyw yn bleser mawr ganddo i draddodi pregeth neu ddarlith pryd bynag y ceisir ganddo. Am y dygwyddiad trist a galarus a'i amddifadodd ef a'r teulu o'i fab anwyl ac addawus mewn modd mor sydyn, ac mewn gwlad bellenig yn mis Tachwedd, 1893, nid yw yn caru siarad,

ond y mae yn ceisio ymostwng yn ddystaw a dirwgnach i'r Bod Mawr Anfeidrol Ddoeth a Chariadus, yr hwn sydd yn rhoddi bywyd ac yn ei gymmeryd ymaith y modd a'r pryd y gwelo Efe yn dda.*

(I'w barhau.)

MIS MAI.

HAWDDAMOR i ti'n llon,
  Flodeuog fis y flwyddyn,
Mae breichiau pawb o'r bron
  Ar led am gael dy dderbyn;
Yr wyt yn ieuanc er yn hen;
Dynesu'r wyt gan wisgo gwên.

Ar gylch dy yrfa faith—
  Mor ddystaw 'rwyt yn sangu,
Prin pan yn gwneyd dy waith
  Y clywir di'n anadlu;
Mae rhyw farddoniaeth uchel fri
Yn blygion o dy amgylch di.

Mae cael hamddenol dro,
  I yfed dy awelon,
Pan fydd y dydd ar ffo
  A'i bryder a'i ofalon,
Yn ysgafnhau holl bwysau'r fron,
A throi y lleddf yn gariad llon.

Mae cân y fronfraith gu
  O glochdy teml anian,
Ac yntau'r, deryn du,
  Sy'n cathlu 'nawr yn mhobman;
Fe fyn yr 'hedydd godi fry
I alw'r wawr i'th gyfarch di!

Dy wisg, mor lân yw hi,
  Yn wyrdd, o liw hyfrydlon,
A'th flodau bach di-ri'
  Yn dyner fel dy galon;
Hyawdledd byw sydd yn dy wedd
Yn arllwys ffrydiau clir o hedd.

---

* Collodd Mr. David Lewis Evans, ail fab Mr. Evans, ei fywyd, Tachwedd 30, 1893, yn Buenos Ayres, mewn canlyniad i ddamwain alaethus ar fwrdd yr agerlong *Highland Glen*, ar yr hon yr oedd yn brifbeiriannydd. Ei oed oedd 34.

Fel dan gyfaredd mwyn
Rhyw freuddwyd cun, gogleisiol,
Myn adgof, gael ei ddwyn
Yn ol o'r pell orphenol,
Y bydd dynoliaeth dan dy nawdd
Yn odli cerddi iti'n hawdd.

Cefn Coed. CASWALLON.

TY YR ARGLWYDDI.

MR. GOL,—Yr wyf wedi meddwl nad anmhriodol fyddai ychydig sylwadau ar y pwnc hwn yn ngholofnau YR YMOFYNYDD; ac os medrwch ddygymmod ag ymdrechion anmherffaith ond diffuant un nad yw yn meddu ond ar ychydig gymhwysder i ysgrifenu, yn enwedig ar bwnc mawr fel hwn, teimlaf yn ddiolchgar i chwi. Yn ddïos a dibetai, dyma bwnc mawr llywod-ddysg yn bresennol. Felly y desgrifiodd Mr. Gladstone ef yn ei araeth ddiweddaraf yn Nhy y Cyffredin. Y mae yr awr wedi dyfod, meddai efe, (a phwy sydd yn deilwng o'i gymharu ag ef mewn rhagweledlad gwleidyddol?) pryd y mae'n rhaid cymmeryd i ystyriaeth sefyllfa berthynasol Ty y Cyffredin a Thy yr Arglwyddi. Ac, yn wir, gellid meddwl mai dyma deimlad cyffredinol y wlad. Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ofer ydyw myned i'r drafferth o ethol aelodau i Dy y Cyffredin i lafurio am fisoedd yn olynol, a darostwng eu holl lafur wedi'n i wawd a dirmyg yr Arglwyddi—pobl nad ydynt yn gyfrifol i neb ond hwy eu hunain. Honir gan ysgrifenwyr o fri mai amcan gwreiddiol y Cyfansoddiad Prydeinig ydyw amddiffyn bywyd a meddiannau; ond sut y mae cael dyfodfa at y gwasanaeth y mae Ty yr Arglwyddi wedi wneyd i hyrwyddo'r amcan uchod sydd bwnc anhawdd. Byddai yn hawdd, o'r tu arall, cael enghreifftiau i'r gwrthwyneb. Nid unwaith na dwywaith y mae wedi bod yn achos terfysgoedd echryslawn, ac y mae yn fwy na thebyg, tra y pery ar ei *footing* presennol, mai achosi terfysgoedd wna yn y dyfodol hefyd. Nis gall fod yn wahanol. Dyma gwrs naturiol pethau. Dywed Froude, yr hanesydd, fod Arglwyddi y Ty Uchaf yn berchen ar fwy nag un rhan o dair o diroedd yr holl wlad. Pa synwyr sydd mewn pethau felly? Ffynnonell holl gyfoeth y wlad yn gyfyngedig i nifer mor fychan o ddynion! Byddai mor hawdd genym gredu y gwnai yr ychydig hyn gydsymmud a chydymdeimlo â'r cynnydd sydd yn cymmeryd lle yn gysson mewn egwyddorion gwerinol yn yr amgylchiadau y maent ynddynt, ag a fyddai genym y gwnai yr Ethiop newid ei groen, neu y llewpard ei frychni. Gyda phob dyledus barch i'r rhai sydd yn credu yn wahanol, methwn er dim weled yr angenrheidrwydd am y Ty hwn o gwbl. Fod angen edrych ar bynciau gwleidyddol o wahanol safbwyntiau sydd amlwg i bawb; ond ai nid yw Ty y Cyffredin yn gyflenwad i'r angen hwn? Ai nid yw yr holl amser dreulir yn Nhy y Cyffredin i basio mesurau yn brawf fod y pleidiau yno yn manteisio

hyd yr ymylon ar eu holl gyfleusderau i wyntyllu pob pwnc hyd ei waelodion? Ac os, felly, beth all fod yr angenrheidrwydd am yr ail, neu y Ty Uchaf? Y mae hanes y Ty hwn, yn neillduol oddiar 1831, yn profi ei fod wedi bod yn fangre glyd i bob gorfaeliant, rhagorfraint, ac annghydraddoldeb gwleidyddol a chrefyddol. Ceisiwn fyned i fewn yn fanylach i'r gosodiad hwn yn ein nesaf.

GWERINWR.

Y CRI AM UNDEB CRISTIONOGOL.

MAE'R Eglwys Gristionogol heddyw, fel mae wedi bod trwy'r canrifoedd, yn rhanedig i fân bleidiau a sectau; ac i bob ymddangosiad mae'r pleidiau yn amlhau yn barhaus. Ar y rhestr sydd yn cyfnodi enwau'r pleidiau Cristionogol ceir enwau newydd braidd yn flynyddol; ac mewn llawer o amgylchiadau, mae lle i ofni fod y rhesymau dros ffurfiad y pleidiau newydd hyn yn annigonol iawn, ac efallai mewn rhai achosion yn blentynaidd.

Un achos, ac efallai'r prif achos, trwy'r canrifoedd, o'r ymraniadau hyn oedd y gwahanol dybiau am yr hyn ddylai fod ammod aelodiaeth mewn Eglwys Gristionogol. Yn ystod y canrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol, unig ammod aelodiaeth neu ddysgyblaeth i'r Iesu oedd cydnabyddiaeth mai efe oedd y Crist, ac ymddiriedaeth ynddo fel arweinydd ysprydol; ond ar ol hyn ni chlywyd nemawr am yr ammod hwn, a dygwyd i fewn ammodau ereill—ammodau nad oedd un sail iddynt yn ngeiriau Iesu Grist. Dygwyd i fewn gydsyniad â chredoau a chydymffurfiad â seremoniau eglwysig fel ammodau anhebgorol cyn y gallai neb restru ei hun yn y fyddin Gristionogol, na galw ei hun ar enw'r Iesu; ac y mae hyn wedi parhau hyd y dydd heddyw; a hyn yn ddiamheu sydd wedi bod yn brif achos yr ymraniadau ydynt heddyw mor lluosog.

Mewn un ystyr, nid oes dim i'w ddweyd yn erbyn yr ymraniadau hyn. Mae dyn yn rhydd i feddwl drosto ei hun, a phan mae dynion yn defnyddio eu meddyliau, mae'n naturiol eu bod yn edrych ar y gwirionedd neu'r gwirioneddau Cristionogol mewn gwahanol agweddau, ac felly yn dod i gasgliadau gwahanol. Nid yw unffurfiaeth barn yn bossibl; ac ni fyddai (fel y credwn) yn beth i'w ddymuno pe yn bossibl. Amrywiaeth, ac nid unffurfiaeth, sydd i'w weled yn natur yn mhob cyfeiriad; a'r amrywiaeth hwn sydd yn gwneyd natur mor brydferth a swynol. Yr un fath ydyw yn myd y meddwl. Mae amrywiaeth yn rhoi symbyliad i'r meddwl ymchwilio am y gwirionedd; ond mae pob unffurfiaeth yn lladd pob tueddiad i ymchwiliad. Ond yr hyn sydd i'w feio neu allan o le yn yr ymraniadau hyn yw'r ysprydcul, anfrawdol, ac annghristionogol sydd braidd yn wastad yn cydfyned â'r ymraniadau hyn. Darllenwn mewn hanes am ddynion yn cael eu gosod i farwolaeth am beidio derbyn syniadau y blaid gryfaf. Mae y tudalenau ar y rhai y cofnodir y creulonderau hyn yn ysmotiau duon

ar enw da Cristionogaeth. Mae'r byd wedi gwneyd cynnydd dirfawr erbyn heddyw, fel nad yw yn ngallu neb i osod cyd-ddyn i farwolaeth am beidio credu yn unol â'r gredo boblogaidd; ond os yw'r gallu wedi ei dynu ymaith, mae lle i ofni fod yr yspryd yn parhau yn helaeth. Prawf o hyn yw'r modd cilwgus yr edrycha un blaid ar blaid arall. Onid yw'r yspryd hwn i'w gael yn Nghymru heddyw? Da fyddai genym allu credu nad yw. Ond nis gallwn. Nid ydym yn dymuno gweled unffurfiaeth; ni ddymunem weled yr enwadau Cristionogol yn uno yn un fyddin fawr gydag unffurfiaeth mewn barn yn rhwymyn undeb; ond nid yw yn ormod i ni ddysgwyl eu bod, tra yn cadw eu hannibyniaeth, etto yn cydweithio yn galonog mewn pob gwaith da, yn cydnabod eu gilydd ar yr un llwyfan fel Cristionogion, ac yn cydnabod pawb sydd yn llwybrau'r Iesu, gan nad beth yw ei syniadau duwinyddol, fel brodyr Cristionogol.

Mae'r ymraniadau hyn, ac yn enwedig yr yspryd cul ac anfrawdol sydd yn canlyn yr ymraniadau hyn, yn achos o wendid mawr yn yr Eglwys Gristionogol. Mae'n anhawdd iawn dychymygu beth fyddai cyflwr cymdeithas heddyw, pe byddai yr Eglwys Gristionogol wedi cydweithio fel un llaw yn yspryd Iesu Grist o blaid dyrchafiaid moesol y byd; ond yn lle hyn mae ei nerth wedi ei wastraffu mewn dadleuon difudd, cynhenau parhaus, ac ymdrech am yr uwchafiaeth.

Mae arwyddion fod y prif ddynion perthynol i'r gwahanol enwadau Cristionogol yn dechreu teimlo'r gwendid hwn, ac yn dyheu am symmud ymaith yr achos o hono. Ymdrinir a'r mater mewn papyrau a chylchgronau a chynnadleddau; ac er y gwadir ein hawl ni i'r enw Cristionogol, ac y'n gwrthodir o'u cynnadleddau lle yr ymdriniant â'r mater gwir bwysig hwn, llawenychwn wrth weled yr arwydd hwn o awydd am fwy o undeb a chydweithrediad, a dymunwn rwydd hynt i'r ymdrechion a wneir i'w dwyn oddiamgylch.

Beth yw'r safon a all wneyd gwir undeb Cristionogol yn bossibl? Rhaid i ni fyned yn ol heibio i ymherawdwyr a breninoedd, duwinyddion a phabau, cymmanfaoedd a chynghorau, at Iesu Grist. Beth ddywed ef ar y mater? Dywed mai y sawl sydd yn gwneyd ei eiriau yw ei ddysgyblion. Dylai pob dyn sydd yn edrych i fyny at Iesu Grist fel ei arweinydd, ac yn ymdrechu ei ganlyn, gael ei gydnabod fel Cristion, gan nad beth yw ei syniadau duwinyddol; a hon yw'r unig safon ar yr hon y gellir dwyn oddiamgylch undeb gwirioneddol cydrhwng y gwahanol bleidiau Cristionogol. Ni ddywedodd Iesu Grist un gair am gredu ynddo fel ammod dysgyblaeth iddo:—hyny yw, credu ynddo yn yr ystyr y defnyddir y gair "credu" heddyw yn gyffredin; ond dywedodd lawer am *wneyd*. Argraffed yr eglwys, ynte, ar ei bannerau "*Ffyddlondeb ac ufudd-dod i arweiniad Iesu Grist a rhyddid mewn barn*," a hi a ennilla yn ol y gallu a'r dylanwad sydd yn bossibl iddi eu meddu, ond yr hwn allu sydd yn awr, pan y mae credoau, seremonïau, ac enwadaeth gul, yn argraffedig arnynt, yn cyflym fyned allan o'i gafael.

PENNILLION COFFADWRIAETHOL.

I'r diweddar Dafydd a Sophia Howells, 37, *Brook St.*, *Aberaman*, *Aberdar.*

Ganwyd Dafydd Howells, yn Amaethdy Waenrhyddod, Plwyf Llanboidy, Sir Gaerfyrddin, Ionawr yr 28ain, 1808; bu farw Gorphenaf yr 11eg, 1882, yn 74 oed. Ganwyd Sophia Howells yn Amaethdy Fronboeth, yn yr un plwyf, Ebrill yr 8fed, 1813; bu farw Hydref yr 16eg, 1894, yn 81 oed.

Wedi mordaith hirfaith bywyd, glanio yn yr hafan glyd
Wnaeth fy anwyl hen gym'dogion, draw yn mhell o dwrf y byd;
Cawsant ddyddiau yr addewid—pallodd nwyfiant, nerth, a hedd;
Mewn penllwydni y syrthiasant i briddellau oer y bedd.

Er i stormydd amgylchiadau guro arnynt lawer pryd,
Ffyddlawn fuont i'w cyfammod; tynent wrth y rhwyfau'n nghyd;
Dysgent ganu ar y tonau tra â'u golwg ar y wlad,
Lle cânt ganu yn dragwyddol yn nghymdeithas Duw y Tad.

Ffurfiai'r teulu gôr yr aelwyd—canai'r fam a chanai'r ferch,
Canai'r tad a'r meibion hefyd gerddi aelwyd lawn o serch;
Canent gyda'r offerynau orchestweithiau cewri'r byd;
Canent hefyd hên alawon Cymru gyda hwyl yn nghyd.

Y mae tri o'r côr yn gorphwys wedi canu'u *part* i ben—
Tad a Mam, a'u hanwyl Thomas, gerddor grymus, fab di-sen;
Tra mae pedwar yn yr anial a'u gwynebau tua'r wlad,
Ni obeithiwn, lle cânt etto gwrdd a'u brawd, a'u mam a'u tad.

Pan fu farw'm hoff gym'dogion, pan y cym'rwyd hwynt i ffwrdd,
Clwyfwyd holl aelodau'r teulu; lleddf fu cân yr Hen-Dy-cwrdd;
Buont yn golofnau cedyrn dan yr achos flwyddi maith;
Ffydd a gobaith a'u cynnaliodd hyd y diwedd yn y gwaith.

Diniweidrwydd a nodweddai'u cymmeriadau trwy eu hoes
Tawel, dystaw, amyneddgar, ym mhob cystudd, dan bob croes:
Heddwch mwy i'w llwch i orphwys hyd nes geilw udgorn Duw
Y cyfiawnion i ail fywyd fry i'r Nef i fythol fyw.

Aberdar. Hywel Cynon.

Pe danfonid dau angel i lawr o'r nefoedd, un i eistedd ar orsedd, a'r llall i ysgubo'r heolydd, ni fyddai fater yn y byd gan yr angylion pa un oedd y teyrn a pha un oedd yr ysgubwr, ond byddai yn fater mawr *pa sut* yr oedd pob un yn cyflawnu ei ddyledswydd.

AM DRO YN MANCEINION (Manchester.)

Am y tro cyntaf yn fy oes mi a dreuliais wyliau y Pasc oddicartref, ac yr oedd fy mhrofiad yn gyfryw nad wyf am gael ei gyffelyb byth mwy. Rhesymau cryfion iawn yn unig a allasent ddylanwadu arnaf i gymmeryd y cam hwn, ac er fy mod, o ran fy nghorff yn nghanol trwst a thrafnidiaeth brysur Manceinion, yr oedd fy nghalon a'm meddyliau bron yn hollol gyda'm hanwyliaid yn Nghymru. Am naw o'r gloch boreu Iau cyn y Pasg, cychwynais ar hyd llinell y *Great Western*, a chyrhaeddais ben y daith am ugain mynud wedi chwech yn yr hwyr. Yr oedd y daith dipyn yn faith, ond bu'm yn ffodus i gwrdd â chyfeillion difyr a fuont yn help i wneyd y siwrnai lawer yn fyrach. Ar ein taith croesasom bont Crumlyn, yr hon a ymestyna dros gwm dwfn a chul, 442 o droedfeddi islaw canllaw ganol y bont, ac wrth gael cipdrem arni wrth basio, cefais achlysur arall i ryfeddu at allu y meddwl dynol i ddyfeisio ac i greu, i ddychymygu ac i sylweddoli y dychymyg hwnw. Trwy greigiau, tros fynyddoedd, lawr obry i berfeddion y ddaear, yn mhob man y mae llafur dyn yn trechu rhwystrau, yn beiddio yr anhawsderau mwyaf, ac mae natur yn rhoddi ffordd i ymdrechion diysgog meddwl dyn; ac am y tro cyntaf yn fy oes, hefyd, y gwelais I erddi hopys (*hops*). Wrth gwrs, nid oedd hopys i'w canfod ar y pryd, ond yno yr oedd y gerddi, y tir wedi ei drin yn barod, y coed wedi eu trefnu yn ofalus i'r planhigyn prydferth, pan y daw, i ymddringo ar hyd-ddynt, a chyflwyno ei ffrwyth i ddyn, i'w gymhwyso ganddo, fel llawer o bethau ereill, i amcanion da neu i amcanion drwg.

Cyn cyrhaedd Caer, cawsom olwg frysiog ar ddyffryn teg Llangollen, a gallem weled yr afon Dyfrdwy yn ymddolenu yn bleserus drwyddo, ac ar drum uchel y tu arall iddi hen gastell Wynnstay, preswylfod Syr Watcyn W. Wynne. Yr oedd yn llawen genyf gyrhaedd Manceinion, a chanu yn iach, am dymhor, i wasanaeth y ceffyl haiarn. Ond ow! y trwst a'r berw a ddisgynent ar fy nghlust wrth fyned allan o'r orsaf. Yr oedd dwndwr y bobl a'r cerbydau o bob math yn ddigon i'm syfrdanu, a gall y darllenydd yn hawdd ddirnad fy nheimlad pan y cefais fy hun yn unig yn nghanol y tryblith anferthol hwn o brysurdeb masnachol, heb wybod yn y byd pa gyfeiriad i gymmeryd. O'r diwedd, fodd bynag, cyrhaeddais fy "nghartref oddicartref," a deallais fod fy mrawd-yn-nghyfraith a ddysgwyliwn i gwrdd à mi allan yn chwilio am danaf. Yr oeddwn wedi bwriadu cyrhaedd y dref trwy un orsaf, ond mewn gorsaf arall y disgynais, ac yn fuan rhoddwyd ar ddeall i mi fod cwmni y rheilffordd wedi bod mor haelionus a rhoddi i mi daith hirach o lawer nag oeddwn wedi fargenia à hwy. "All's well that ends well;" ac nis gallaf finau lai na bod yn ddiolchgar am y profiad a'r pleser a gefais oddiwrth ddygwyddiad mor ymddangosiadol ddibwys.

Tra yn "pylu dannedd newyn," dywedwyd wrthyf fod yr Undodiaid yn myned dranoeth i ddathlu Jiwbili Cymdeithas yr Ysgol Sul yn Manceinion a'r ardal, yr hyn a roddodd i mi foddhad mawr

iawn. Mae yn arferiad yn yr ardal hon a gynnwysa 13 o eglwysi Undodaidd, i'r athrawon ac i garwyr gwaith yr Ysgol Sul gyfarfod ar bob Gwener y Groglith i gynnal gwasanaeth. Eleni cyfarfuasant yn nghapel Cross Street—adeilad eang yn gymhwys i ddal o leiaf fil o bobl. Adeilad sewar ydyw, yn nghyd ag oriel ar dair ochr iddo, tra y perchenogir yr ochr arall gan yr organ a'r pwlpud. Mae y gwaith coed o liw tywyll, yr hyn a rydd i'r holl le osgo hytrach yn fawreddog. Bychain yw y ffenestri, wedi eu rhanu yn chwarelau mân, a gwydr lliwiedig ynddynt. Uwchben y brif fynedfa yn nghanol yr oriel, ac yn gwynebu y pwlpud, mae awrlais wedi ei osod yn yr un pren tywyll, ond torir ychydig ar drymder y lliw gan edefyn o eurwaith *(gilding)*. Bu y capel hwn unwaith yn weddol lawn, ac yr oedd yr aelodau mor gefnog ac mor annybynol fel y gallasent fforddio gwrthod £70,000 gan Gorphoraeth Manceinion am yr adeilad. Y fath gyfnewidiad sydd wedi dyfod dros lawer o'n hen gapeli a fuont yn flodeuog unwaith, ac yn llawn bywiogrwydd crefyddol. Mae y bobl wedi ymwadu â'r ddinas a'r dref, ac wedi chwilio am lonyddwch mwy y pentrefi cylchynol, ac nid ydynt mwyach yn mynychu yr hen gapeli, ac y mae yr hen gartref, i fesur mawr, wedi ei adael yn annghyfanedd. Dyna, fel yr ymddengys, yw tynged eglwysi Cross Street, a Strange-ways, yr eglwys arall lle cynnelid cyfarfod y prydnawn, yn yr hon y mae Dr. Daniel Rees yn weinidog. Y pregethwr eleni oedd Dr. Brooke Herford, Llundain, â phwnc ei bregeth oedd yr elfen bersonol mewn crefydd. Yr oedd ei sylwadau yn llawn o awgrymiadau dyddorol ac adeiladol. I mi, y mae Dr. Brooke Herford yn bortread o'r hyn y dylai pregethwr fod—yn syml a diymhongar, yn eglur ac yn rymus, yn ddifrifol, yn ffres ac yn ddefosiynol. Oddiar 1870, y mae gwaith yr Ysgol Sul wedi myned trwy chwyldroad hollol. Nid oes a fyno mwyach ag addysg fydol—gwneir hyny yn effeithiol gan yr ysgolion dyddiol. Y sawl ydynt yn caru llwyddiant ein pobl ieuainc, dylent wneyd eu goreu i beru i waith yr Ysgol Sul fod mor bleserus ag sydd bossibl, i wneyd yr oll o'i chylch yn swynol, ei chyfeillach yn wresog, yr addysg a gyfrannir ynddi wedi ei sylfaenu ar y Beibl, bywydau dynion mawrion a da, rhyfeddodau anian, a dadguddiad o rhagluniaeth Duw yn mhob peth o amgylch i ni. Credai y pregethwr y dylai'r athrawon, trwy eu dylanwad personol, geisio gwneyd cyfeillion o'u hysgolheigion, fel y gallent, trwy hyny, ffurfio rhwymyn o gyfeillgarwch a lwyddai i sicrhau i fesur mawr lwyddiant eu Cymdeithas. Dylanwad a ffydd bersonol oeddynt yr anhebgorion —ffydd bersonol yn esgor ar weithgarwch personol. Nid yw dymuno yn dda, a gwneyd dim, yn tycio fawr i ddwyn oddiamgylch ganlyniadau llewyrchus.

Ar ol cyfarfod y boreu cawsom luniaeth yn ysgolion Mosley Street, a thê drachefn yn y prydnawn cyn myned i'r cwrdd diweddaf yn nghapel Cross Street. Yr oedd yn bleser gweled yr ysgwyd dwylaw ac arwyddion ereill o'r teimlad rhagorol a ffynai yn mhlith y presennolion. Y cyfoethog a'r tlawd, yr uchel a'r isel, yr athraw a'r dysgybl, pawb o un galon ac o un enaid ar eu heithaf i wneyd y cyfarfod yn un

difyr a llawen. I mi yr oedd y profiad yn un o bleser gwirioneddol, a bydd yr adgof am y gwynebau a welais, y cyfeillion a gwrddais, yr oll o honynt yn Undodiaid ffyddlon, a'r profion o'r dyddordeb byw a gymmerent yn llwyddiant ein pobl, i mi yn ffynnon o lawenydd ac o gefnogaeth.

Mr. Steinthal ydoedd llywydd cyfarfod yr hwyr. Yn y cyfarfod hwn darllenwyd pedwar papyr. Y cyntaf ar "Addysg Athrawon yr Ysgol Sul," gan Mr. Freestone o Macclesfield. "Gwaith crefyddol ein Hysgolion Sul" oedd testyn papyr a ddarllenwyd gan y Parch. W. Copeland Bowie, Llundain. Miss Gittins, o Leicester, oedd y nesaf i anerch y cyfarfod, ac yn nghorff ei haraeth ar "Yr elfenau cymdeithasol ac adloniadol yn yr Ysgol Sul," darfu iddi nodi allan amryw gyfeiriadau a llawer dull yn y rhai y gallasai yr athrawon feithrin a chefnogi moddion i foddhau y cywreinrwydd diorphwys a'r bywiogrwydd diflino a nodweddant bob plentyn iachus. "Yr Ysgol Sul yn ei pherthynas â'r Eglwys" ydoedd testyn anerchiad a draddodwyd gan y Parch. P. M. Higginson, Monton, ac ar ol y sylwadau adeiladol a gawsom ganddo dygwyd gweithrediadau y dydd i ben.

Gallaf ychwanegu i mi gael nid ychydig o ddyddordeb oddiwrth y ffaith i mi ddygwydd bod yn eistedd, yn nghyfarfod y nos, yn yr un sedd ag yr eisteddai Mrs. Gaskell, awdures enwog "Bywyd Charlotte Bronte," ac amryw o lyfrau ereill, ynddi, ac nid neppell oddiwrthyf canfyddwn y Prif-Athraw Gordon, a'r Parchn. T. Lloyd Jones, E. Ceredig Jones, M.A., Dr. Daniel Rees, a G. Evans, M.A. "Nes elin nag arddwrn," ac nis gallwn lai na theimlo pleser mwy wrth weled cynnifer o'm cydwladwyr yn bresennol yn y cyfarfod.

Dydd Sadwrn, cymmerasom daith wrth ein pleser i ymweled â chlafdy Manceinion, yn nghyd a'r *exhibition*, lle mae cofgolofnau ardderchog i Peel, Heywood, y Tywysog Albert, John Bright, a'r pistyll yn arllwys ei ddyfroedd gloewon a gymmerir o lyn Thirlmere, yn Cumberland, lle mae tarddle rhan o'r dwfr sy'n diwallu pobl Manceinion. Wedi gweled yr hyn a chwennychem weled o'r lleoedd hyn, aethom i mewn i un o siopau mawrion Lewis, ac wrth sylwi ar y ffrydlif diaros o bobl yn myned ac yn dod i fewn ac allan trwy yr adeilad eang, gallem dybio ein bod allan ar un o brif heolydd y dref. Oddiyma cyfeiriasom ein camrau i'r *Art Gallery*, lle y buom am oriau yn ymwledda yn nghanol cyfoeth diyspydd o brydferthwch yn ei holl ddelweddau. Yn y lle rhyfeddol hwn ceir *paintings* a cherf-luniau o bob math, gwrthddrychau wedi eu gwneyd o bres, o aur, arian, gwydr, pridd, defnyddiau gwisgoedd mewn sidan, felfed, cotwm, a'r oll yn ein synu gan eu hamrywiaeth, ac ysplander anghydmarol eu gwneuthuriad. Nis gallaswn I wneyd dim ond sefyll mewn edmygedd mud o flaen y fath brofion amlwg o fedr a chywreinrwydd dyn.

Am hanner awr wedi naw boreu Sul aethum i'r ysgol perthynol i Brookfield, lle yr oedd tua 150, yn blant a rhai mewn oed, wedi dyfod yn nghyd. Cefais yn agos i awr o fwynhad wrth ymgomio a thua dwsin o ferched ieuainc, ymroddgar, y rhai a ffurfient y dosparth hynaf o fenywod yn yr ysgol.

Am 11, aethum i wrando fy mrawd-yn-nghfraith yn nghapel Brookfield. Mae yr adeilad hwn yn un o'r rhai prydferthaf yn ei adeiladwaith, yn ddigon mawr i gynnwys 600 o bobl. Codwyd y capel ar draul un Mr Peacock, yr hwn a'i rhoddes yn anrheg i'r gynnulleidfa, a thybir iddo gostu miloedd lawer o bunau. Gwyn fyd na f'ai gyda ni yn Nghymru ddynion tebyg i Mr. Peacock, a wnai ambell waith ein galluogi i gael lleoedd prydferth i addoli ynddynt. Cefais fy moddhau yn fawr gan y bregeth a'r canu. Cenir anthem yn mhob cwrdd, ac yr oedd yr anthemau y cefais I y fraint o wrando arnynt yn cael eu canu yn ardderchog,—y *bass* a'r *soprano*, yn ol fy marn I, yn odidog iawn. Yr oedd yr ysgol yn y prydnawn yn orlawn, a dywedwyd wrthyf y bwriedir adeiladu lle o fwy pan ddaw'r amserau ychydig yn well. Yr oedd y cynnulliad yn y boreu yn dda iawn, ond yr un yn y nos yn lawer yn well, ac ymddengys fod y capel hwn, fel rheol, yn gysurus o lawn. Rhaid fod hyn yn gefnogaeth mawr i'r gweinidog, a thybiwn rhyngof a mi fy hun, y fath galondid i'n gweinidogion ni yn Sir Forganwg fuasai cael cynnulliadau mor lluosog o Sul i Sul. Rhaid iddynt beidio llwfrhau, ond gwneyd y goreu o'r amgylchiadau, gan fod yn ffyddlon i gydwybod a dyledswydd, ac ymorphwys yn y gredinaeth fod yr oll yn cael ei oruwch-reoli gan ragluniaeth holl ddoeth.

Unwaith etto yr wyf yn y gerbydres ar fy ffordd tuag adref, ac er ein bod yn teithio yn dra chyflym, dymunwn gael meddu adenydd er myned yn gyflymach fyth.

"Chwiliwch y byd drwyddo i gyd,
'Does un man yn debyg i gartref."

B— n. A.G.J.

SEGURYN Y SABBOTH.

Tydi, anystŷriol seguryn dydd Duw,
Tro yma dy wyneb am eiliad,
Rho astud wrandawiad, a dywed, beth yw
Dy feddwl, wael adyn dideimlad?
Pe byddai dy galon yn haiarn neu faen,
Nis gallet byth fod yn fwy oeraidd;
Lwm gorach y fagddu! clyw, dos yn y blaen,
I gadw dydd Sabboth yn sanctaidd.

I'w wneuthur, mae genyt rhagorach gwaith, frawd,
Nâ thramwy heolydd segurdod
Ar ddydd mawr yr Arglwydd; yr wyt yn gwneyd gwawd
O "Fydded" boreuol y Duwdod:
Yn wir, gallem feddwl, fusgrellyn dwl, dall,
Wrth wrando ar goethder dy araeth
Fympwyol, a'th ymffrost, mai ti yn ddi-ball,
A ddygodd y byd i fodolaeth.

Trueni na ddeuai dy Grewr i'r byd
  A deuddeg can myrddiwn o engyl
Mewn gwisgoedd gorwychion, a'u gosod i gyd
  I ddawnsio o amgylch dy breswyl,
A phob un o honynt i ddweyd wrthyt ti,
  Hawddamor, ein harglwydd bendigaid (?)
O! gibddall uffernol! mae nef eirchion gri
  Yn berwi mêr esgyrn dy enaid.

Maen tramgwydd yn myd Cristionogaeth wyt ti,
  Ac echrys fradychwr cynghorion;
Nid wyt yn amgenach ar aelwyd dy dŷ
  Nâ delw addoliad ellyllon!
Ac O! mae dy fywyd yn poeri sarhad
  I wyneb Efengyl y nefoedd;
Gad heibio'r fath fywyd, a thyr'd i hau had
  Yn ngwinllan fawr Arglwydd y lluoedd!

Trebanos. BEN DAVIES.

ADGOFION CYMRU FU! PENNODAU ANNGHOFIEDIG.

PENNOD xiii.: MARI THOMAS A'I CHYFFES FFYDD.

YR oedd yn byw yn——, a gelwid hi gan bobl garedig y lle, y rhai ydynt fwyaf o honynt yn ddysgyblion Sion Calfin, a llawer o honynt yn hoffi llysenwi, yn Mari Sosin. Yr oedd Mari bron yr unig Undodydd adnabyddus yn y lle. Tlawd oedd o ran amgylchiadau bydol, a llwm ddigon; ond yr oedd yn gyfoethog o grefydd, ac felly mor hapus ag oedd y dydd yn hir. Fel y dywed Owen Rees, gweinidog Annghydffurfiol cyntaf Aberdar:

"Fe ddichon rhai mewn cyflwr is fyw yn gysurus ddigon,
Heb brofi llawer chwerw dro sy'n blino cyfoethogion.
'Mhob oes o hyd mae dynion da yn ddedwydd ar y ddaear;
Os ydynt dlodion yn y byd, mae ganddynt olud hawddgar."

Er yn dlawd, caffai Mari barch cyffredinol—parch wedi ei ennill trwy ddiwydrwydd, gonestrwydd, ac yspryd annybynol. Yr oedd yn gyfarwydd iawn a'r "hen lyfr" ac yn barod bob amser i ateb i bob un a ofynai iddi reswm am y gobaith oedd ynddi. Gorfu iddi weithio yn galed trwy ei hoes er sicrhau bywiolaeth, ond nid oedd un anhawsdra byth iddi gael y gwaith hwnw oedd yn angenrheidiol at gyrhaedd yr amcan mewn golwg. Caffai ambell un yn hwyrfrydig ddigon i dalu iddi yr ychydig oedd yn ddyledus ar ol gwaith caled. Dyfyrwch llawer oedd ceisio ei phoeni à sylwadau anngharedig, fel ag i gael clywed ei hatebion parod.

Un diwrnod pan oedd ar wasanaeth fel arfer, daeth boneddwr iawn-ffyddiog i fewn ati, ac ar ol y cyfarchiadau arferol, dywedodd ei fod mewn gofid dwys. Dichon ei fod; nid oes achos amheu ei air. "Mari,"

meddai, "yr wyf mewn gofid blin, mewn gofid blin a thost, Mari." "Ai e, Syr, beth sy'n bod?" "Wel, Mari, mae yn ddrwg geny' ddweyd wrthych, mae un o fy merched yn myned i briodi â Sosin; yn myn'd i briodi â Sosin, Mari. Byddai'n well genyf iddi briodi ag unrhyw beth nâ hyny, pe byddai ddim ond dyn yn tori cerryg ar yr heol. Ac nid wyf yn blino cymmaint am dani hi 'chwaith, waeth 'wn I ddim llai nad yw hi'n gymmaint Sosin ag yntau; ond pan fyddwy'n meddwl y gall fod yna Sosiniaid bach, yr wyf yn teimlo fy nghalon yn gwaelu. Mari 'oes genych chi Gyffes Ffydd? 'Oes Cyffes Ffydd gan y Sosiniaid?" Ystyriodd Mari dipyn beth ddywedai, ac yna yn mhen ychydig, meddai, "Oes Syr, oes siwr." "Rhowch i mi gael ei gwel'd hi, Mari." "Mae gartref genyf." "Rhedwch i'w hol hi, Mari: mi garwn yn fawr gael golwg arni." "Dalla' I ddim, Syr, yr ydwyf yn gweithio yma ar hur. 'Ydyw dyn ddim yn berchen ar ei amser pan fydd yn gweithio dros arall." "Cerddwch chi, Mari fach," ebai gwraig y ty, yn garedig, "os yw'r gwr boneddig am; nid yw'r ffordd yn mhell, ac nid oes achos i chi' fod yn hir." Aeth Mari i ffwrdd gan wneyd cymmaint brys ag a allai, ac wedi cymmeryd yr hen Feibl yn ei llaw, rholiodd ef i fyny yn ei ffedog, a dychwelodd yn ei hol gynted ag y gallai. Estynodd y llyfr i'r boneddwr, yr hwn, wedi ymaflyd ynddo a ddywedodd, "Mari, Mari, yr ydych yn ceisio fy nhwyllo I, Beibl ydyw hwn." "Nac ydwyf, Syr, ddim yn ceisio eich twyllo ch'i. Yn y Beibl mae fy nghyffes ffydd I, ac mi ddeffeia I chwi ffeindio ei gwell yn un man arall." Nid oedd y presennolion yn gallu llai nà gwenu wrth weled parodrwydd Mari.

(*Ar adroddiad R.C.J.*) P.P.

LLYTHYR IOLO MORGANWG AT DR. W. OWEN PUGHE.

TREFFLEMIN, MAWRTH 12FED, 1788.

GAREDIG Syr,—Ni fu nemawr o beth chwithach gennyf nag imi ffaelu ateb eich caredig lythyr cyn gynted ag oedd eich dymuniad. Yr achosion ydoedd y rhain, yn gyntaf, yr wyf yn gorfod ymbalffast (fel y dywedwn yn Morganwg) a llawer o drafferthion a gofalon, yn ail y mae fy ngwaith (trin cerrig beddau gan mwyaf) yn gorwedd cyn belled o'm cartref, fel yr wyf er's dyddiau maith yn gyflwyr ddiamser ac odfa'n agos i sgrifennu dim. Yr ewyllys da sydd gennyf at yr Iaith Gymraeg a phawb sydd yn ymdrafod a hi oedd yr unig beth ar hyn o dro allasai 'narwedd i osod pen ar bapir. Dyma i chwi o'r diwedd 12 neu 13 o Gywyddau D. ap Gwilym nad ynt ynghasgliad Mr. O. Jones, y mae, 'rwy'n meddwl ychwaneg gennyf ymhlith yr anneirif bapirau didrefn (yr anialwch dyrus, fel mae'n gymhwys ei alw) y sydd gennyf, yn enwedig Cywydd yr Adar (un rhagorol) ond nis gallais er chwilio'n fanol ag eitha cais ac ewyllys gael gafael arnynt. Och na buaswn yn gwybod yn gynt am eich gwaith yn argraffu D. ap Gwilym mi allaswn ddanfon i chwi gopiau o lawer Cdd (f'allai'n agos i gant)

gwell na'r rhai yn Llyfr y Myfyr—yr wyf yn gobeithio y daw'n wobr i chwi dal ac ynnill wrth eich bodd ac yn ol eich haeddiant am gopio D. ap G. fel y gwnaethoch o ysgythredd a chrafangau coll ac anghof,—mi a feddyliais er's pedair neu bum mlynedd ddanfon yr holl Gywyddau yma i O. Jones ymhob ei Gywydd o bryd i bryd mewn llythyrau, eithr darfu i mi yn fy Llythyr diweddaf ato ef, ag un ynghylch yr un amser at y *Ceiriog fod mor anghall a byr bwyll ag achwyn wrthynt fod y Byd yn fy ngwrthwynebu, a bod aflwyddiant yn gwasgu'n drwm arnaf (etto clod i Dduw heb geisio dim ganthynt) ag ni chefais i lythyr byth wedi hyn oddiwrth yr un o honynt, darfu iddynt lwyr ymwrthod a mi, mi achwynais wrthynt fel wrth frodyr, wrth gyfeillion caredig fel y bum mor wanbwyll a barnu, ag ni bu dim chwithach erioed gennyf nag i'm llythyrau gael y fath effaith arnynt. Y mae'n dda iawn gennyf na cheisiais i ddim ar eu dwylaw er colled iddynt, yn wir mi geisiais gopi o ryw ddernyn bychan o hen ysgrifen a dim amgen—Ond cefais achos i ddeall nad oedd croesaw i'm llythyrau mwyach, a bernais yn oreu gadael ymhellach i'w blino.

> "Fy mhrif bechod oedd tlodi,
> Pob tlawd sy gydfrawd i gi,"

ebe'r bardd eosaidd o Fon.

Dyma i chwi'r achos na fuasai pob peth a feddaf fi o waith D. ap G. a llawer peth arall yn hir cyn hyn yn llaw y Myfyr.

Y mae'r rhan fwyaf o'm hen gyfeillion wedi ymddwyn tuag ataf yr un modd, ag am gynlleied achos, eto ar y cyfan, y mae i mi achos i fod yn bur ddiolchgar iddynt, y maent wedi 'niddwyn i'n llwyr agos oddi wrth y Gymraeg a phobpeth a berthyn iddi.

Chwi a gewch yr un peth a feddaf fi ond ich' roddi gwybod immi, a chredwch fi nid wyf yn y mesur lleiaf yn meddwl eich blino am unrhyw beth yn dal, digon o dal i mi ar hyn o dro fod D. ap G. yn cael ei ddwyn unwaith etto i dir y byw drwyddoch Pa fodd yr ydych yn cyhoeddi D. ap G.? ai wrth ragdaliad ai nade? os felly yw, rhoddwch ymysg yr enwau enw fy mab bychan.

Taliesin ab Iolo, o Dreffleminin yn Morganwg. Pwy wyr na fydd ef fyw i fod mor enwog a Thaliesin Ben Beirdd.—Y mae gennyf draethawd ysgrifenedig ar Farddoniaeth Gymraeg a ysgrifenwyd ynghylch y flwyddyn 1660 cywrain dros ben, ac yn rhagori ymhell ar bob peth a welwyd hyd yn hynn yn argraffedig, a'r neb a'i cyhoeddo a gaiff gopi cywir o hono gennyf. Y mae yn hwnw y cyfryw oleuni ar ansawdd gwreiddiol ein Barddoniaeth ar nis gwelwyd etto yn fy marn i. Yr wyf yn meddwl y neidiai'r Myfyr gan lawenydd o'i gael. Dywedwch wrtho ei fod at ei wasanaeth os mynn ef, ac hefyd nad

---

[* Sion Ceiriog, neu John Edwards, a aned yn Nglyn Ceiriog yn 1747. Aeth i Lundain, a bu iddo ran gydag Owain Myfyr a Rob. Ddu, o Fon, yn sefydliad Cymdeithas y Gwynneddion yn 1770. Bu'n ysgrifenydd iddi yn 1779—80, ac yn llywydd yn 1783. Bu farw, yn 45 oed, fis Medi, 1792.]

yw'm cyfeillach gwbl cymmaint i'w ofni ag y bu. Cofiwch mi ato ganwaith, ag at y Ceiriog yn wir garedig a maddeugar, balch iawn a fyddwn gael unwaith etto gydymgyfeillachu a nhwy, ond arnynt hwy y mae dechrau. Da fydda gennyf gael llythyr hir oddiwrthych chwi, wr mor enwog, a pha gymmaint bynnag fyddo'i hyd, na thybiwch y gwelaf y gosd yn ormod i dalu am dano. Mae gennyf fodd etto i dalu am lythyr.

Bellach yr wyf

Y Cymro celfyddgar, hyd eitha gallu ag ewyllys i chwi ag i bawb a gar ein hiaith.

Yn ufudd, ac yn barod wasanaethydd,

IOLO MORGANWG.

EDWARD WILLIAMS, Marble Mason (Saer Mynor) at Flemston, near Cowbridge, Glamorgan.

Allan o'r "Cymro" Liverpool, Rhagfyr 22, 1893.

CYFARFOD SEFYDLU YN MERTHYR.

Bu cyfarfodydd sefydlu y Parch. D. J. Williams, diweddar o Newark, yn weinidog ar yr eglwys Undodaidd yn Merthyr, fel olynydd i'r Parch. Nestor Williams, yn llwyddiannus iawn. Wrth gychwyn gyrfa newydd, ni a obeithiwn, yn hanes yr enwad, nid annyddorol, o bossibl, fydd crynodeb byr o hanes yr eglwys yn Nhwynyrodyn oddiar ei chychwyniad hyd yn awr. Cangen o Ynysgau, Merthyr, yw yr eglwys hon. Pan y darfu i'r eglwys a arferai ymgyfarfod yn Nghwmyglo, ymranu yn ddwy blaid, aeth un o'r pleidiau i Gefn Coedycymmer, lle yr adeiladasant yr Hen Dy Cwrdd yn 1747, tra yr aeth y blaid fwy Trindodaidd i Ferthyr, lle y codasant hen gapel Ynysgau yn 1749. Yn mhlith y blaid olaf yr oedd lluaws o Undodiaid pybyr, ac nid yw yn debyg y gallasent hwy addoli yn hir iawn gyda'r sawl a wahaniaethent gymmaint oddiwrthynt mewn barn. Y diwedd fu i'r Undodiaid fyned allan ac ymffurfio yn eglwys, gan adeiladu y capel presennol yn 1820—21. Agorwyd ef ar y 25ain o Ebrill, 1821—74 mlynedd bron i'r diwrnod i'r adeg y sefydlwyd y gweinidog diweddaf. Y gweinidog cyntaf oedd David Rees, dyn ieuanc o ardal Cei Newydd, os nad ydym yn camsynied. Ar y pryd y derbyniodd wahoddiad oddiwrth yr ychydig ffyddloniaid yn Merthyr i ddyfod yn weinidog, yr oedd Mr. Rees yn efrydydd meddygol yn Glasgow. Ufuddhaodd i'r alwad i wasanaethu y ddeadell fechan yn ystody gwyliau, yr hyn a wnaeth yn dderbyniol iawn hyd 1825, pryd yr ymadawodd i gwblhau ei efrydiaethau, y rhai a fuont mor llwyddiannus fel y graddiodd yn M.A. ac yn M.D. Ar ei ol ef daeth y Parch. David John, o St. Clears, ac er nad oedd onid gof gwlad, yn atebol

iddo ei hun yn gyfangwbl am bob addysg a feddai, yr oedd yn bregethwr hyawdl a galluog iawn. Bu gyrfa Mr. John yn Merthyr yn hynod ar lawer ystyr. Ymdaflodd yn galonog i'r holl fudiadau cymdeithasol ac addysgol ag oeddent â'u tuedd i ddyrchafu'r werin. Cymmerodd ran flaenllaw yn y rhyfel yn erbyn y dreth eglwys, a gwelodd ei dyddimu. Yr oedd, hefyd, yn Siartist i'r carn, a gweithiodd mewn amser ac allan o amser er sicrhau y chwe' phwynt a gefnogid mor wresog ganddo ef a'i gyd Siartiaid. Bu ei ymlyniad wrth Siartiaeth, yr hon oedd yn dra anmhoblogaidd ar y pryd, yn foddion i wanychu ei gynnulleidfa i'r fath raddau, nes y bu raid cau y capel am gryn dymhor. Ail-agorwyd y capel yn 1848, a bu y Parch. Peter Livingstone yn gweinidogaethu am tua blwyddyn gyda chryn lwyddiant. Dylynwyd ef gan y Parch. G. C. Lunn, yr hwn, hefyd, a fu yn cadw ysgol yn y dref am tua phum' mlynedd. Ar ei ol ef daeth y Parch. Harry Hill, yn ddyn ieuanc o Manchester New College, ond nid hir y bu ei arosiad, gan iddo yn mhen blwyddyn gael ei bennodi yn olygydd y *Daily News*, Llundain. Dylynwyd hwn, drachefn, gan y Parch. W. W. Robinson, yn awr o Gainsborough, yr hwn a arosodd dair blynedd yn y lle, ac ar ei ol y daeth y Parch. Nestor R. Williams, gweinidogaeth yr hwn a barhaodd am 34 mlynedd. Bu Ysgol Sul Twynyrodyn, ar un adeg, yn flodeuog iawn: iddi yr ymdyrai lluaws o bobl ieuainc awyddus am addysg, yr hon a gyfrenid iddynt gan athrawon medrus yn y gwaith, megys y diweddar Mr. Thomas Stephens, yr hanesydd gododog; Mr. C. H. James, wedi hyny yr Aelod Seneddol dros Fwrdeisdref Merthyr; a Miss Howells, o'r Patriot.

Felly, gwelir fod llinyn tynghed Mr. Williams wedi disgyn mewn maes ag hanes iddo, ac hyderwn y bydd ei lafur yn y maes hwn yn ffrwythlawn o ganlyniadau bendithfawr.

Cymmerodd y cyrddau sefydlu le Ebrill 21ain a'r 22ain. Dydd Sul pregethodd y Prif Athraw Gordon, M.A., i gynnulleidfaoedd ardderchog, a phrydnawn Llun cafwyd pregeth nad annghofir 'mo honi yn fuan gan y rhai a i clywsant, gan Dr Brooke Herford. Hwyr yr un dydd, rhoddwyd croesaw cyhoeddus i Mr. Williams fel gweinidog. Llywyddwyd gan Mr. G. Carslake Thompson, a siaradwyd gan amryw o'r gweinidogion ac ereill.

PAHAM NA FUASAI RHAGOR O BOBL YN MYNYCHU'R ADDOLDAI AR Y SABBOTH.

Yn y *Christian Life* am y 9fed cyfisol, dan y pennawd uchod, ymddangosodd erthygl feistrolgar, yr hon a deifl oleuni i raddau helaeth, ar yr esgeulusdod dirfawr o'r addoliad cyhoeddus ag sydd yn peru cymmaint o bryder i grefyddwyr gonest ein gwlad. Yn Llundain, fel mae yn hyspys i lawer o ddarllenwyr Yr Ymofynydd, y mae cyfres o ddarlithiau wedi eu traddodi er egluro y daliadau a gredir genym fel enwad. Gresyn meddwl mai ychydig a ddeuai yn nghyd i wrando y

darlithiau gwir angenrheidiol hyn. Y rhesymau possibl am yr agwedd hon ar bethau sydd yn fwyaf neillduol yn cael sylw yn yr erthygl y cyfeiriwn ati. Yn ei ymchwiliad cymmer yr awdwr olwg eangach nâ'r un enwadol ar y pwnc, o herwydd y mae'r pla hwn yn blino pob enwad. Dywed fod yna weinidog parchus, nid Undodwr, yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, wedi gwneyd ymchwiliad i'r cwestiwn. I'r perwyl hwn argraffodd gannoedd o gardiau ac arnynt y pennawd hwn:—"Paham na fyddai rhagor o bobl yn mynychu'r eglwys." Dosparthwyd y cardiau hyn yn mysg aelodau a gwrandawyr yr eglwysi, a chafwyd atebion gan fasnachwyr, crefftwyr, cyfreithwyr, doctoriaid, &c. Mae'r hyn a ganlyn yn grynodeb o'r atebion a roddwyd:—"Dim un rheswm yn gyffredinol;" "Dim rhagfarn yn erbyn eglwysi;" "Yn cael eu caethiwo drwy'r wythnos;" "Dim ond difaterwch, o herwydd ewyllysiant i'w gwragedd a'u plant fynychu;" "Hawliau masnach brysur;" "Ofni cael eu gwawdio gan eu cyd-weithwyr;" "Nad oedd eglwys o'r enwad y perthynent yn gyfleus;" "Absennoli eu hunain trwy rym arferiad;" "Nad oeddynt wedi eu dwyn i fyny i fynychu'r addoldy;" "Dim dillad cyfaddas;" "Yn costi gormod;" "Ddim yn credu yn yr eglwys;" "Dim daioni yn deilliaw wrth fynychu;" "Daioni digonol y tu allan i'r eglwys;" "Yr ydym yn meddwl mwy am ein cyrff nag am ein heneidiau;" "Y gwasanaeth yn rhy undonol;" "Diffyg cariad brawdol yn mhlith yr aelodau;" "Fod rhagrithwyr yn aelodau yn yr eglwysi." Onid yw yn alarus meddwl fod esgusodion mor fychain â'r uchod yn rhwystro pobl i fynychu Ty Dduw? Hefyd, y mae llawer o honynt yn wag a diystyr, oblegyd y mae ein heglwysi yn agored i bawb; medr pawb fynychu'r capel a fyno. Pe teimlid awydd gan rywun hefyd i siarad â gweinidog neu ddiacon, yr wyf yn berffaith sicr y byddai yn bleser ac yn hyfrydwch o'r mwyaf ganddynt roddi goleuni a chyfarwyddyd a chefnogaeth iddynt yn eu pryder a'u hamheuaeth. Dywedodd Mr. Barnum, y *showman* bydenwog, ei fod yn credu mewn pregethwyr a phregethu. "Dangoswch i mi fan," meddai, "lle nad oes pregethu, yna dangosaf finau fan lle mae gwehilion cymdeithas yn byw, lle mae'r ystrydoedd yn fudr, ffenestri y tai yn doredig, a hen hetiau yn llenwi y tyllau, a'r holl amgylchedd mewn cyflwr o ddadfeiliad truenus, a'r trigolion yn byw yn nghanol bryntni ac aflendid." Mae lle i ofni fod llawer yn Nghymru yr un fath, yn absennoli eu hunain o'r Capel ar y Sul o herwydd rhyw esgusodion sydd mor ansylweddol â lledrith neu darth. Gadewch i ni wneyd defnydd o'r amser tra mae dydd gras yn parhau arnom, drwy ymdrechu bod yn bresennol gyda chyssondeb mewn lle o addoliad. Gallwn ninau, fel proffeswyr crefydd, wneyd llawer er cael ereill i ymuno â ni. Felly, awn ati heb oedi, ïe, awn i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a gwahoddwn bawb i ddyfod i Dy Dduw.

T.J.

CEGIN dew wna 'wyllys deneu.—*Franklin.*

RHATACH gwaith lleihau drygau nag adeiladu carcharau.—*Yr Arlywydd Garfield.*

NODYNAU GWASGAROG.

Y LLYFR TONAU AC EMYNAU.

Mr. Gol.,—Am flynyddau bellach yr wyf wedi bod o'r farn, ac wedi cael barn amryw ereill, mai un o angenion mwyaf ein heglwysi ni yn bresennol yn Nghymru yw llyfr tonau ac emynau at wasanaeth yr addolwyr; ac yn fy ngwaith yn talu ymweliad â'r rhan amlaf o'n cynnulleidfaoedd fel arweinydd cymanfaoedd canu, cafodd y farn hono ei chadarnhau yn fwy nag erioed. Bum yn siarad ag amryw gyfeillion yn mhell ac yn agos, a cnytunant â mi yn hollol ar y pwnc. Felly, yr ydwyf fi a'm cyfeillion, Mr. W. Harries, a Mr. Hathren Davies, ar y Cefn, wedi ymgymmeryd â'r anturiaeth bwysig o gasglu tonau ac emynau at eu gilydd er cyflenwi'r angenrhaid. Nid ydym wedi breuddwydio am ddwyn llyfr allan heb ei feiau, ond 'rwy'n credu y bydd o wasanaeth mawr i'n cynnulleidfaoedd. Yr ydym wedi anfon amryw o'r emynau mwyaf hoff ag sydd gan ein heglwysi at gerddorion galluog Cymru a Lloegr i gyfansoddi tonau arnynt, ac yr ydym wedi bod mor ffodus â'u cael i gydsynio â'n cais, ac wedi derbyn amryw donau oddiwrthynt y bydd yn bleser mawr eu canu yn ein capeli. Mae genym eisoes tua 100 o donau ardderchog, llawer o honynt yn newydd spon; ac yn mhen ychydig amser yn bwriadu bod â 100 arall yn barod. Feallai y bydd rhai yn ein beio na fuasem wedi ymgynghori â'n cynnulleidfaoedd cyn cychwyn ar y gwaith. Wel, os ydyw hyna o anffawd wedi dygwydd, 'does dim i'w wneyd. Gobeithiwn na wna pawb droi eu cefnau arnom yn ddiystyrllyd oblegyd hyn. Yr ydym wedi cael ar ddeall fod symmudiad at yr un gwaith ar droed gan rai cyfeillion yn Sir Aberteifi. Drwg genym os awn ar draws ein gilydd; ond gan fy mod wedi dechreu ar y gwaith er ys llawer dydd, a byth yn caru gadael gorchwyl ar ei hanner, ac wedi myned i ychydig cost at y tonau, yr wyf yn benderfynol o ddyfod ag ef allan, costied a gostio. Mi garwn ddweyd mai mewn ufudd-dod i gais rai o brif ddynion yr enwad y darfu i mi ymgymmeryd â'r gwaith, ac ar yr addewid y buaswn yn cael cydymdeimlad a chefnogaeth yr eglwysi. Yr wyf, gan hyny, am wneyd yn hyspys trwy gyfrwng Yr Ymofynydd, os oes rhai o'n heglwysi yn barod i estyn llaw o gymhorth, y byddwn yn ddiolchgar.

Yr eiddoch,
D. Eiddil Jones.

DAMMEG YR ELEPHANT.

A adroddwyd gan Virchand R. Ganthi, cynnrychiolydd Sect y Jainiaid, yn Senedd Crefyddau'r Byd yn Chicago.

"Un tro, yn yr hen amser gynt, fe ddygwyd elephant i ddinas fawr gydag arddangosfa. Nid oedd y bobl wedi gweled elephant erioed o'r blaen. Yr oedd saith o bobl ddeillion yn y ddinas yn awyddus i

wybod pa fath greadur oedd, ac felly aethant gyda'u gilydd i'r man lle'r oedd yr elephant yn cael ei gadw. Gosododd un o honynt ei law ar glustiau'r elephant, y llall ar ei goesau, a'r trydydd ar ei gynffon, ac felly yn y blaen. Pan ofynwyd iddynt pa fath greadur oedd yr elephant, atebodd un ei fod yn debyg i wyntyll fawr. Meddai'r llall, 'Na, yr ydych yn camsynied yn ddirfawr, mae yn debyg i bost mawr crwn;' ac meddai'r trydydd, 'yr ydych yn camsynied eich dau; y mae yn debyg i bren yn meinhau tua'r blaen.' Rhoddodd y lleill hefyd opiniynau gwahanol. Dygwyddodd perchen yr arddangosfa fod ar bwys yn clywed, a dywedodd, 'Gyfeillion, yr ydych oll yn gamsyniol. Ydych ch'i ddim wedi gwneuthur eich prawf ar yr elephant o bob cyfeiriad. Pe wedi gwneyd hyny, ni fuasech wedi cymmeryd golwg mor rhanol ac unochrog."

Manion ac Hanesion.

YNADON HEDDWCH.—Yn *Sessions* diweddaf Ceredigion cafodd tri Undodwr da eu gair eu pennodi yn Ynadon Heddwch dros y sir, sef y Parchn. Thomas Thomas, W. James, B.A., a'r Dr. Abel Evans, Llanbedr. Peth newydd oedd gweled tri Undodwr yn cael eu dyrchafu i'r fainc yr un dydd.

CRAIG TREBANOS. — Dymunir hyspysu cyfeillion parchus Sir Aberteifi y bydd rhywrai yn dyfod oddiamgylch yn gynnar yn Ngorphenaf nesaf, i gasglu at ddileu y ddyled sydd yn aros ar y capel newydd uchod. Costiodd yr adeilad gwir angenrheidiol hwn dros £1,000, ond y mae dros £500 wedi eu casglu yn barod, drwy fod y gynnulleidfa wedi addaw gwneyd dros £300, ac y mae £500 o ddyled yn aros etto. Gobeithiwn y bydd llawer yn barod i estyn llaw o gynnorthwy er ysgafnhau y baich. Gallwn eu sicrhau hefyd y byddwn ni yma yn barod yn y dyfodol i dalu yn ol yr un gymmwynas os ceir cyfleusdra i wneyd hyny.—Ar y 7fed o Ebrill derbyniwyd dau aelod newydd yma, ac oddiar yr amser yr agorwyd y capel newydd, y mae cynnifer â 29 o aelodau newyddion wedi eu derbyn yma.—Ar Sul, y 12fed o'r mis hwn, cynnelir cyrddau mawr yma, pryd y pregethir yn Gymraeg gan y Parchn. J. Davies, Alltplaca, a W. James, B.A, Llandyssul; ac yn Saesneg gan y Parch. T. Robinson, Abertawe. Dysgwylir y ceir cyrddau da, ac y bydd y capel yn orlawn.

CRIBIN.—Yn etholiad diweddaf Bwrdd Ysgol Llanfihangel Ystrad, da genym weled fod Miss Jenkins, Mynach Villa, wedi ei dychwelyd ar ben y *poll*. Gofyna y *Western Mail* a oes enghraifft arall yn Nghymru o'r fam a'r ferch wedi bod yn aelodau o'r un bwrdd.

GWILYM MARLES.—Yn Rhifyn Gorph. o'r *Llenor* bydd erthygl faith a dyddorol ar Gwilym Marles, wedi ei hysgrifenu gan y diwyd Barch. R. J. Jones, M.A. Myned ein darllenwyr weled *Y Llenor*: mae yn gyhoeddiad rhagorol, yn llawn gwerth swllt.

Y PHOTOS.—Yn Rhifyn Mehefin, bydd darlun godidog o'r hanesydd Stephens o Ferthyr, ac erthygl feistrolgar arno gan Gwernyfed.

ABERDAR.—Yn Nghapel Highland Place, nos Fawrth, Ebrill y 23ain, traddododd y Parch. Jeffrey Worthington, B.A., Taunton, ddarlith ddyddorol ar "Beth yw Barddoniaeth?" Llywyddid gan y Parch. R. J. Jones, M.A.

DR. GRIFFITHS.—Deallwn fod y Dr. Griffiths wedi ei bennodi yn arholwr mewn Hebraeg yn Ngholeg Henadurol Caerfyrddin.

CAPELGROES.—Ebrill yr 8fed, cynnaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei gwyl dê flynyddol yn yr ysgoldy perthynol i'r capel. Trwy fod y tywydd wedi troi allan yn ffafriol, daeth cwmni lluosog yn nghyd i fwynhau y danteithion a ddarparesid gan Mrs. a Miss Jenkins, Mynach Villa, a Misses Jenkins, Blaenwaun. Wedi gwledda'r corff, a symmud ymaith y byrddau, dechreuwyd gwledda'r meddwl â chanu ac adrodd, yn nghyd â chystadleuaeth yn y canlynol:—Dau bennill i'r te, Morgan Jones, Neuadd; adrodd "Y Bywydfad"

(Emrys), Margaret Jones, Tynewydd; "Di, dyner Wawl," Anne Evans, Ffinnant Fach, ac M. E. Davies, Blaencwrt, yn gydradd; ateb chwe' chwestiwn ar hanes Iesu Grist, John Evans, Rhydiau Bach; *freehand drawing*, Wm. Williams, Llanwnen, a T. L. Davies, Llanbedr, yn gydradd; *scarf*, Miss Rees, Tregaron; hosanau, Mrs. Anne Jones, Blaenwaun; arffedog, Marg. Jones, Tynewydd. Barnwyd yr adroddiadau, &c.. gan Mr. P. W. Rees, C.M., Llanwnen; y gelfyddyd gan Mrs. Evans, Llysfaen, Mrs. Jenkins, Mynach Villa, a Miss Jones, Llwyngroes. Cymmerwyd y gadair gan y Parch. David Evans, Cribin. Llywyddwyd gan weinidog y lle. Wedi talu'r diolchgarwch arferol, ymadawodd pawb, wedi myned trwy un o'r cyfarfodydd hwylusaf allesid ddymuno.

PRIODAS.—Ebrill 9, yn Nghapel Shiloh, gan y Parchn. J. C. Evans ac R. C. Jones, Mr. David Price Davies, *veterinary surgeon*, Llanbedr, & Miss Mary Ann Jones, Royal Oak Hotel, o'r un dref.

Marwgofion.

Mawrth 11, John Evans, Rhydcaisfawr, ar ol cystudd byr, yn 42 oed. Gadawodd ar ei ol wraig ac wyth o blant, y rhan fwyaf o'r rhai ydynt etto yn ieuanc. Yr oedd yn ddyn tawel, sobr, a gweithgar, ac nid bychan fydd y golled i'r teulu lluosog. Bydded i nodded y nef wylied dros y weddw a'r amddifaid, a'u cysuro yn eu hadfyd. Arferai fynychu'r gwasanaeth crefyddol yn Rhydygwin yn gysson, a theimlir chwithdod ar ei ol yno. Hebryngwyd ei weddillion marwol y dydd Iau canlynol gan dorf anarferol o luosog i fynwent Aberduar, a gweinyddwyd yn y ty ac ar lan y bedd gan weinidog y Cribyn, ac yn y capel gan y Parch. H. James, Aberduar. Traddodwyd y bregeth angladdol yn Rhydygwin yn mhen mis ar ol hyny. pryd y daeth cynnulleidfa luosog o gyfeillion a pherthynasau yn nghyd.

Mawrth 22, ar ol misoedd o gystudd, yn 74 mlwydd oed, Margaret Morgans, gwraig Mr. David Morgans, Dolwlff, Llanwenog, a mam yr hyglod a'r Parchedig J. Gwenogfryn Evans, M.A., Rhydychain. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent Alltplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur i glywedigaeth tyrfa fawr gan y gweinidog, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribin. Yn ei marwolaeth collodd ei phriod, yn ei henaint a'i lesgedd, wraig gariadus a darbodus; y plant fam a'u carai fel ei hunan; y gymmydogaeth un barod i gydymdeimlo mewn pob cyfyngder; a'r eglwys yn Alltplaca un o'i haelodau mwyaf ffyddlon. Yn ein hamddifadrwydd bydded i ni oll gofio fod yr hyn yr ym ni yn ei deimlo sydd wedi bod yn golled i ni, wedi dyfod yn elw mawr iddi hi. "A marw sydd elw." Nodded y nefoedd dros y galarwyr.

Mawrth 30, yn 73 oed, John Evans, North Lodge, Lampeter. Claddwyd ef yn Nghapelgroes y dydd Mawrth canlynol. Gwasanaethwyd yn y ty gan gurad y plwyf, ac yn y capel gan y Parchn. R. C. Jones, Llanbedr, ac E. E. Jenkins, gweinidog y lle. Gadawodd weddw, tair merch, a mab i alaru ar ei ol.

Ebrill 12, ar ol cystudd byr, yn dri mis oed, Rachel, anwyl faban David Jones, Tanycoed, a Mary ei wraig. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi."

Ebrill 15, yn 85 mlwydd oed, Evan Evans, Tytalp, Llanwenog. Y dydd Gwener canlynol, rhoddwyd yr hyn oedd farwol o hono i orphwys yn mynwes ei briod hoff yn mynwent eglwys y plwyf. Gwasanaethwyd yn y ty ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan y Parch. Mr. Davies, y curad. Nid oedd iechyd ein hen gyfaill wedi bod er's blynyddau yn dda, ac etto, daliodd i fyny yn rhyfedd hyd o fewn i ychydig ddyddiau i'w farwolaeth. Cafodd oes faith, a defnyddiodd hi'n ffyddlon i wasanaethu Duw a dyn. Aeth trwy'r byd heb wybod beth oedd dichellion. Yr hyn a gredai yn ei galon a ddywedai, a'r hyn oedd uniawn a wnai. Pe byddai llawer o ddynion a wnant fwy o ymddangosiad o grefydd yn efelychu ei yspryd ef, byddai'r ddaear yn well preswylfod i bawb, a'r nefoedd yn llawnach yn y diwedd.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.